Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale

**Coleg Adfer a Lles**

**Recovery & Wellbeing College**

Gobiath • Rheolaeth • Cyfle
Hope • Control • Opportunity

# Prosbectws

## Tymor yr Hydref 2023 (rhan 1)

*Dydd Llun 25 Medi – Dydd Gwener 27 Hydref*

GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English*



# Caerdydd a'r Fro Coleg Adfer a Lles

Mae Coleg Adfer a Lles Caerdydd a'r Fro yn darparu cyrsiau addysgiadol am ddim ar ystod o bynciau iechyd meddwl, iechyd corfforol a lles. Caiff ein cyrsiau eu cynnal ar-lein neu wyneb yn wyneb mewn lleoliadau ar draws Caerdydd a'r Fro. Mae cymorth gan gymheiriaid wrth wraidd ein holl gyrsiau, gyda phob un ohonynt yn cael eu cyd-gynhyrchu a'u cyd-ddarparu gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol a hyfforddwyr cymheiriaid sydd â phrofiad personol o heriau iechyd meddwl ac iechyd corfforol. Mae arweinwyr y cwrs yn defnyddio eu profiad i gefnogi eraill. Rydym yn credu bod gan arbenigedd clinigol a phrofiad personol yr un gwerth ac mae ein cyrsiau yn gyfle i ddysgu gan ein gilydd a gwerthfawrogir cyfraniadau pawb. Ein nod yw pontio'r bwlch rhwng iechyd meddwl ac iechyd corfforol ac rydym yn datblygu nifer o bartneriaethau arloesol i wella iechyd a lles pobl ar draws Caerdydd a'r Fro.


Cardiffandvale.Recoverycollege@wales.nhs.uk

02921 832619

https://bipcaf/gig/cymru/coleg-adfer/


## Ydych chi'n nerfus neu'n ansicr ynglŷn â dod i Goleg Adfer a Lles Caerdydd a'r Fro am y tro cyntaf?

Os ydych chi'n teimlo'n bryderus neu'n ansicr ynglŷn â dod i'r coleg i ddechrau, efallai mai'r rheswm am hyn yw eich bod yn teimlo nad ydych chi'n gwybod digon am y coleg eto a bod angen rhagor o wybodaeth arnoch. Efallai eich bod hefyd yn poeni am siarad mewn grŵp oherwydd gorbryder neu golli hyder. Neu efallai y bydd gennych bryderon ynghylch gallu canolbwyntio a chymryd rhan lawn yn y cwrs. Os oes gennych unrhyw un o'r pryderon hyn, gall ein hyfforddwyr eich cefnogi yn ystod y cyrsiau ac maent wedi cynllunio'r cyrsiau i fod yn addas ar gyfer pobl sy'n wynebu amrywiaeth o anawsterau. Gallwch hefyd gwrdd ag un o'n hyfforddwyr cyn dod i gwrs.

## Dewch i gyfarfod ag un o'n hyfforddwyr

Mae croeso i chi ddod i gyfarfod ag un o'n hyfforddwyr mewn sesiwn un i un cyn dod i'r coleg. Yn y cyfarfod hwn gallwch ddysgu mwy am y coleg a'n cyrsiau, ac archwilio'r hyn rydych yn gobeithio ei gyflawni drwy ddod i'r coleg. Yn ystod y cyfarfod, bydd yr hyfforddwr yn gallu gweithio gyda chi i ddatblygu cynllun dysgu unigol i helpu i ddiwallu eich anghenion unigol. Gall y cynllun dysgu unigol eich helpu i nodi'r hyn yr hoffech ei ddysgu, pam eich bod am ei ddysgu a sut y gallai eich helpu gyda'ch lles a'ch adferiad. Mae'r cyfarfod hwn hefyd yn rhoi cyfle i'r hyfforddwyr ddeall sut y gallwn gefnogi eich dysgu drwy feddwl am unrhyw rwystrau i ddysgu a allai fod gennych. Os oes gennych anabledd neu anhawster iechyd neu ddysgu penodol, gallwn nodi rhai newidiadau a allai wneud ein cyrsiau yn fwy hygyrch i chi. Dywedwch wrthym ar eich ffurflen gofrestru os hoffech gyfarfod â hyfforddwr.

# Croeso i Goleg Adfer a Lles Caerdydd a'r Fro
## Tymor y Gwanwyn 2023 (Rhan 1)

# Cynnwys


**1. Y Gyfres Deall**

| | |
|---|---|
| 1.1 Deall Seicosis | 4 |
| 1.2 Deall Gorbryder | 4 |
| 1.3 Deall Anhwylder Deubegynol | 4 |

**2. Mentora Cymheiriaid**

| | |
|---|---|
| 2.1 Cwrs Achrededig Mentora Cymheiriaid Lefel 1 | 5 |

**3. Lles**

| | |
|---|---|
| 3.1 "Mae fy Mhen yn Llawn Gwenyn" | 6 |
| 3.2 Ni allaf gysgu | 6 |
| 3.3 Wrth i ni Gerdded | 6 |

**4. Ystyriol o Drawma**

| | |
|---|---|
| 4.1 Trawma, Adfyd ac Iechyd Meddwl | 7 |

**5. Gweithgaredd / Symud ar gyfer Adferiad**

| | |
|---|---|
| 5.1 Cadw'n Iach o ran Corff a Meddwl | 7 |

**Dod i wybod am Goleg Adfer a Lles Caerdydd a'r Fro** 8

**Siarter y Myfyrwyr** 9

**Cod Ymddygiad ar gyfer pawb** 10

# 1. Y Gyfres Deall

## *1.1 Deall Seicosis*

*Darpariaeth: Gweithdy 'Attend Anywhere' 2.5 awr*

Mae Deall Seicosis yn dod â Nick Chown ac Andrew Vidgen at ei gilydd i drafod eu dealltwriaeth o ddatblygu seicosis ac adfer o'r cyflwr, a gweithio gyda phobl sydd wedi profi clywed lleisiau neu gredoau gofidus.

**Cwrs sy'n cael ei gyflwyno a'i gyd-gynhyrchu gan:**

**Nicholas Chown, Gweithiwr Cymheiriaid**

**Andrew Vidgen, Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol**

**Dydd Mawrth 10 Hydref 2.30yp – 5.00yp**

## *1.2 Deall Gorbryder*

*Darpariaeth: 2 x gweithdy 2 awr wyneb yn wyneb*

Mae gorbryder yn rhywbeth rydyn ni i gyd yn ei brofi o bryd i'w gilydd. Gall y rhan fwyaf o bobl uniaethu â'r teimladau pryderus, gofidus yna a gawn pan fyddwn yn gwneud rhywbeth sy'n teimlo'n ansicr, neu pan fyddwn yn poeni am arholiadau, apwyntiad meddygol, mynd at y deintydd. Mae'n deimlad naturiol a gall fod yn ddefnyddiol, am ei fod yn ein rhybuddio pan fydd angen i ni weithredu, pan allem fod mewn perygl neu gall hyd yn oed ein helpu i berfformio'n well. Bydd y gweithdy hwn yn edrych ar y gwahanol fathau o orbryder, achosion posibl a sut y gallwch reoli'r teimladau hyn. Cewch y cyfle i drafod eich profiadau personol eich hunain a dysgu oddi wrth eraill ar yr un pryd.

**Cwrs sy'n cael ei gyflwyno a'i gyd-gynhyrchu gan:**

**Susie Boxall, Arweinydd Cymheiriaid ar gyfer y Coleg Adfer a Llesiant**

**Katya Brown, Hyfforddwr Cymheiriaid ac Arweinydd Cymheiriaid Digidol y Coleg Adfer a Lles**

| | | |
|---|---|---|
| **Rhan 1** | **Dydd Mawrth 3 Hydref** | **1.30yp – 3.30yp** |
| **Rhan 2** | **Dydd Mawrth 10 Hydref** | **1.30yp – 3.30yp** |

## *1.3 Deall Anhwylder Deubegynol*

*Darpariaeth: Gweithdy 'Attend Anywhere' 3 awr*

Mae anhwylder deubegynol yn anhwylder cymhleth lle mae pobl yn profi cyfnodau o hwyliau isel ac uchel. Gall profi cyflwr deubegynol a chael diagnosis fod yn ddigwyddiad brawychus, all newid eich bywyd. Mae llawer o fythau a rhagfarnau ynghylch cyflwr deubegynol sy'n gallu ei gwneud hyd yn oed yn anoddach dod i delerau â'r diagnosis. Cafodd y gweithdy cyflwyniadol hwn ei gyd-gynhyrchu gan Paul Whittaker a Kay Challoner i helpu pobl i ddeall y materion hyn. Byddwn yn amlinellu opsiynau triniaeth ac yn archwilio ffyrdd o hyrwyddo adferiad a hunangymorth.

**Cwrs sy'n cael ei gyflwyno a'i gyd-gynhyrchu gan:**

**Paul Whittaker, Artist, Awdur, Uwch Hyfforddwr Cymheiriaid a Chyd-guradur maes Celfyddydau ac Iechyd y Coleg Adfer a Lles, sydd ag anhwylder deubegynol**

**Kay Challoner, Ymarferydd Iechyd Meddwl Arbenigol, BIP Caerdydd a'r Fro**

**Dydd Mercher 4 Hydref 10.00yb - 1.00yp**



# 2. Mentora Cymheiriaid

## 2.1 Cwrs Achrededig Mentora Cymheiriaid Lefel 1

*Darpariaeth: 1 x Cyflwyniad 1 awr a 2 x Gweithdy Zoom 2.5 awr*

Mentor cymheiriaid yw rhywun sydd â 'phrofiad personol o broblemau iechyd meddwl', sydd wedi'i hyfforddi ac yn gweithio (â thâl neu'n wirfoddol) mewn rôl ffurfiol i gefnogi eraill gyda'u hadferiad. Mae mentor cymheiriaid yn cynnig cymorth i eraill drwy rannu profiadau personol o adfer, mewn ffordd sy'n rhoi gobaith a'r pŵer i adfer. Mae mentoriaid cymheiriaid yn grymuso defnyddwyr gwasanaethau i gymryd rheolaeth o'u hadferiad eu hunain, drwy rannu profiadau o'r hyn sy'n gweithio. Mae'r cwrs hwn yn gyflwyniad sylfaenol i fentora cymheiriaid, a sgiliau mentora cymheiriaid. Nid oes angen i ddysgwyr fod mewn rôl mentora cymheiriaid i gofrestru ar y cwrs hwn.

| | | |
|---|---|---|
| Rhagymadrodd | Dydd Mercher 11 Hydref | 10.00yb – 11.00yb |
| Sesiwn 1 | Dydd Mercher 18 Hydref | 10.00yb – 12.30yp |
| Sesiwn 2 | Dydd Mercher 25 Hydref | 10.00yb – 12.30yp |



## Nodau'r cwrs

Gan gefnogi datblygiad sgiliau mentora cymheiriaid, mae'r cwrs Lefel 1 hwn yn gyflwyniad sylfaenol i fentora cymheiriaid, a sgiliau mentora cymheiriaid. Nid oes angen i ddysgwyr fod mewn rôl mentora cym-heiriaid i gofrestru ar y cwrs hwn. Nod y cwrs yw cefnogi a datblygu sgili-au mentora cymheiriaid.

## Canlyniadau dysgu

**1. Deall rôl a chyfrifoldebau mentor cymheiriaid.**

1.1 Diffinio rôl mentor cymheiriaid.

1.2. Nodi beth a olygir gan: a) iechyd a diogelwch o safbwynt mentora cymheiriaid b) ffiniau yn y berthynas mentor cymheiriaid c) cyfrinachedd.

**2. Deall cydraddoldeb ac amrywiaeth o safbwynt mentora cymheiriaid.**

2.1. Nodi: a) sut mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn effeithio ar fentora cymheiriaid b) sut i gynnwys yr holl gyfranogwyr c) ymddygiad gwahaniaethol.

**3. Gwybod sut i ddefnyddio sgiliau mentora cymheiriaid wrth ddarparu gwybodaeth i eraill.**

3.1 Cynllunio sut i ddarparu gwybodaeth i eraill.

3.2 Darparu gwybodaeth i eraill fel mentor cymheiriaid

Growing Space
Helping People Grow



# 3. Lles

## 3.1 "Mae fy Mhen yn Llawn Gwenyn"

***Sut y gallwn ddefnyddio'r celfyddydau i fynegi ein hemosiynau, hwyliau, meddyliau ac ymddygiadau mewn ffordd ystyrlon i ni ein hunain ac eraill ei deall.***

*Darpariaeth: 3 x Gweithdy 2.5 awr wyneb yn wyneb yng Nghanolfan Ymwelwyr Parc Bute*

Sut allwn ni ddweud wrth rywun ein bod ni'n teimlo'n isel os nad ydym yn gwybod y gair iselder, neu sut mae iselder yn teimlo? Beth os mai nerfusrwydd rhywun arall yw ein teimlad ni o bryder? Mae ein meddyliau a'n teimladau haniaethol yn unigryw i ni ac yn seiliedig ar ein profiadau bywyd a gallant gyflwyno eu hunain mewn gwahanol ffyrdd. Ni ellir eu gweld, eu clywed, eu cyffwrdd, eu harogli na'u blasu ac felly gallant fod yn hynod o anodd eu disgrifio.

Drwy sgwrsio creadigol ynghyd ag amrywiaeth o arferion celfyddydol, bydd y cwrs hwn yn archwilio sut y gall defnyddio trosiadau creadigol ein helpu i adnabod, deall a rhannu ein teimladau i gynorthwyo ein hunanfynegiant. Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol o'r celfyddydau.

**Cwrs sy'n cael ei gyflwyno a'i gyd-gynhyrchu gan:**

**Tamsin Griffiths, Artist Amlgyfrwng, Storïwr ac Uwch Hyfforddwr Cymheiriaid**

**Paul Whittaker, Artist Deubegynol, Awdur ac Uwch Hyfforddwr Cymheiriaid**

**Mae Tamsin yn Gyd-guradur maes Celfyddydau ac Iechyd y Coleg Adfer a Lles ochr yn ochr â Paul Whittaker.**

| | | |
|---|---|---|
| Sesiwn 1 | Dydd Mercher 11 Hydref | 10.00yb – 12.30yp |
| Sesiwn 2 | Dydd Mercher 18 Hydref | 10.00yb – 12.30yp |
| Sesiwn 3 | Dydd Mercher 25 Hydref | 10.00yb – 12.30yp |

FOUR

## 3.2 Ni allaf gysgu

*Darpariaeth: Gweithdy 'Attend Anywhere' 2.5 awr*

Gall byw gyda her iechyd meddwl neu gorfforol effeithio ar ein cwsg. Pan effeithir ar ein cwsg, gall hefyd effeithio ar ein hiechyd a'n lles. Bydd y gweithdy ar-lein hwn yn archwilio sut mae cwsg yn gweithio, pam mae ei angen arnom ac achosion cyffredin anawsterau cysgu, gyda'r nod o'ch helpu chi i ffurfio strategaethau i wella eich cwsg.

**Cwrs sy'n cael ei gyflwyno a'i gyd-gynhyrchu gan:**

**Katya Brown, Hyfforddwr Cymheiriaid ac Arweinydd Cymheiriaid Digidol y Coleg Adfer a Lles**

**Rachel Wallbank, Clinig AHP ac Arweinydd Tîm ar gyfer y tîm COVID**

**Dydd Iau 12 Hydref 10.00yb – 12.30yp**

## 3.3 Wrth i ni Gerdded

*Darpariaeth: 4 x sesiwn 2 awr wyneb yn wyneb*

Dros 4 wythnos byddwn yn archwilio gyda'n gilydd y 5 ffordd at Les: Cysylltu; Bod yn Egnïol; Cymryd sylw; Dal ati i ddysgu a rhoi. Byddwn yn cyfarfod ym Mharc Bute, gan archwilio'r amgylchedd naturiol gyda'n gilydd, mewn ffordd ystyrlon a phleserus. Drwy gydol y cwrs byddwn yn myfyrio ar sut y gall bod yn actif a bod yn bresennol yn ein hamgylchedd naturiol ein helpu gyda'n lles. Bydd y sesiynau wedi'u lleoli yng Nghanolfan Ymwelwyr Parc Bute, lleoliad perffaith ar gyfer archwilio rhai technegau gwneud celf syml i gofnodi'r hyn rydym yn dod o hyd iddo pan fyddwn yn cysylltu â natur. Mae'r cerdded yn hamddenol, a chroesewir pobl o bob gallu.

**Wedi'i gyd-gynhyrchu a'i ddarparu gan:**

**Louise Jensen, Hyfforddwr Cymheiriaid ac Ymarferydd y Celfyddydau Creadigol**

**Meriel Jones, Swyddog Addysg Parc Bute, Ymarferydd Lles mewn Natur**

| Sesiwn 1 | Sesiwn 2 | Sesiwn 3 | Sesiwn 4 |
|---|---|---|---|
| Dydd Iau 5 Hydref | Dydd Iau 12 Hydref | Dydd Iau 19 Hydref | Dydd Iau 26 Hydref |
| 1.00yp – 3.00yp | 1.00yp – 3.00yp | 1.00yp – 3.00yp | 1.00yp – 3.00yp |
| Parc Bute | Parc Bute | Parc Bute | Parc Bute |

# 4. Ystyriol o Drawma

## 4.1 Trawma, Adfyd ac Iechyd Meddwl

*Cyflwyniad i Ddeall a Rheoli Effaith Profiadau Bywyd Heriol ar Iechyd Meddwl*

*Darpariaeth: 2 x Gweithdy 2.5 awr wyneb yn wyneb yng Nghanolfan Ymwelwyr Parc Bute*

Gall trawma a phrofiadau bywyd niweidiol, yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i gamdriniaeth, bwlio, tlodi a phrofedigaeth anodd, gael effaith sylweddol ar iechyd meddwl. Mae'r cwrs dwy ran hwn yn darparu gwybodaeth am natur ac effeithiau trawma a phrofiadau bywyd niweidiol ar iechyd meddwl. Mae'r cwrs yn darparu cyfleoedd i drafod sut y gall digwyddiadau trawmatig ddylanwadu ar hwyliau, cydberthnasau a gweithrediad cyffredinol pobl. Byddwn hefyd yn ymdrin â strategaethau I helpu i reoli symptomau trawma a'r gobaith yw y bydd y cwrs yn darparu fforwm i bobl rannu eu profiadau o adfer o drawma os dymunant.

**Cwrs sy'n cael ei gyflwyno a'i gyd-gynhyrchu gan:**

**Susie Boxall, Arweinydd Cymheiriaid, y Coleg Adfer a Lles**

**Lucie Wheeler Seicolegydd Cwnsela**

**Gweithdy 1: Dydd Iau 5 Hydref 10.00yb – 12.30yp**
**Gweithdy 2: Dydd Iau 19 Hydref 10.00yb – 12.30yp**

# 5. Gweithgaredd / Symud ar gyfer Adferiad

## 5.1 Cadw'n Iach o ran Corff a Meddwl

*Darpariaeth: Dwy sesiwn 2.5 awr wyneb yn wyneb yng Nghanolfan Hamdden y Dwyrain*

Ydych chi wedi bod yn meddwl am ddod o hyd i ffyrdd o gyflwyno mwy o symudiad a gweithgaredd i'ch bywyd, ond yn wynebu rhwystrau neu heriau wrth geisio dechrau arni?

Weithiau gall fod yn anodd dod o hyd i'r cymhelliant i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol newydd, gyda phob math o heriau emosiynol yn effeithio ar ein penderfyniadau. Beth allai fod yn ein hatal rhag ymgysylltu a chynnal ffordd o fyw lle gallwn ddechrau symud mwy?

**Cwrs sy'n cael ei gyflwyno a'i gyd-gynhyrchu gan:**

**Tamsin Griffiths Artist Amlgyfrwng, Storïwr ac Ymgynghorydd Cymheiriaid y Coleg Adfer a Lles.**

**Alex Ewins Uwch Ffisiotherapydd Caerdydd a'r Fro**

**Sesiwn 1: Dydd Mercher 12 Hydref 10:00yb – 12.30yp**
**Sesiwn 2: Dydd Mercher 19 Hydref 10:00yb – 12.30yp**



# Dod i wybod am Goleg Adfer a Lles Caerdydd a'r Fro

**Digwyddiad Fforwm Agored y Coleg Adfer a Lles ddydd Gwener 22 Medi 10.00am – 12.00pm. Bydd y digwyddiad hwn yn gyfle gwych i gwrdd â thîm y Coleg Adfer a dysgu ychydig mwy am y cyrsiau gwych y byddwn yn eu cynnig yn nhymor yr Hydref.**

Byddwn hefyd yn rhannu cyfraniadau gan fyfyrwyr y Coleg Adfer a hyfforddwyr cyswllt.

## *Cymheiriaid Digidol,*

Ydy technoleg yn eich gwneud chi'n nerfus?

Gall Cymheiriaid Digidol eich helpu gyda hyn; drwy gynnig cymorth i sefydlu cyfrif e-bost, cofrestru gyda'r Coleg Adfer a Lles ac ar eich cyrsiau dewisol.

Mae gan Gymheiriaid Digidol eu profiad bywyd eu hunain o allgáu digidol, o ddysgu sut i fynd ar-lein a meithrin sgiliau newydd. Mae rhannu eu profiadau eu hunain o allgáu digidol yn caniatáu i gymheiriaid digidol gydymdeimlo a deall rhai o'r rhwystrau a'r heriau sy'n rhan o gael eich cynnwys yn ddigidol.

Ffocws rôl y Cymheiriaid Digidol yw grymuso myfyrwyr i allu defnyddio dyfeisiau digidol, megis cyfrifiaduron, iPads, ffonau clyfar a'r rhyngrwyd, i hyrwyddo a chefnogi cynhwysiant digidol. Os yw hyn yn rhywbeth rydych chi'n teimlo a fyddai o fudd i chi ar eich taith adfer, cysylltwch â'r Coleg Adfer a Lles i drefnu amser addas i chi gwrdd â'r Cymheiriaid Digidol.

## *Cyflwyniad i'r Coleg*

*Darpariaeth: Gweithdy 'Attend Anywhere' 1 awr*

Dewch i'r sesiwn fer hon a gyd-gynhyrchwyd, er mwyn clywed mwy am y Coleg Adfer a Lles a beth mae'n ei olygu i fod yn fyfyriwr.

**Dydd Mawrth 26 Medi 1.30yp - 2.30yp**

## *Cyrsiau ar y Ward*

Mae gennym ddetholiad cynyddol o gyrsiau annibynnol neu amlsesiwn y gellir eu cyflwyno ar wardiau, gan gynnwys "5 ffordd at les", "Hunaniaeth ac Adferiad" a "Byw'n Dda gyda Gorbryder". Os oes gennych ddiddordeb mewn cyd-gynhyrchu cwrs ar y ward neu ein gwahodd i gyflwyno ar eich ward, cysylltwch â rheolwr y coleg / arweinydd y cwricwlwm i gael mwy o wybodaeth:

Lived_Experience.MHCB.Cav@wales.nhs.uk

## *Wythnos ILP*

Un o'r ffyrdd rydyn ni'n cefnogi ein myfyrwyr yw trwy gynnig Cynlluniau Dysgu Unigol.

Y tymor hwn byddwn yn cynnal wythnos Cynllun Dysgu Unigol (ILP) bwrpasol ar yr wythnos sy'n dechrau 26 Medi. Mae cwblhau ILP yn cynnwys cyfarfod â chymheiriaid ILP a sefydlu nodau a bennwyd gan yr unigolyn yn seiliedig ar obeithion a dyheadau. Mae'r sesiwn uni-un hon hefyd yn cynnig cyfle i'n myfyrwyr nodi unrhyw wersi neu gefnogaeth y gall fod eu hangen arnynt er mwyn cael mynediad at ein cyrsiau a chymryd rhan ynddynt. Mae hefyd yn gyfle gwych i fyfyrio ar gryfderau a sgiliau, gan sicrhau bod myfyrwyr yn manteisio i'r eithaf ar eu profiadau gyda'r Coleg Adfer.

**Dydd Llun 25th Medi 2.00yp – 5.00yp**
**Dydd Mercher 27th Medi 10.00yb – 1.00yp**
**Dydd Iau 28th Medi 2.00yp – 5.00yp**
**Dydd Gwener 29th Medi 10.00yb – 1.00yp**

Mae sesiynau ILP yn cael eu cyd-gynhyrchu mewn ffordd anfeirniadol, anffurfiol, hyblyg, sy'n seiliedig ar drafodaeth, ac yn cael eu hwyluso gan gyfoedion sydd â gwybodaeth a phrofiad personol. Os hoffech drefnu apwyntiad, ffoniwch ni ar 02921 832619 neu e-bostiwch ni:

CardiffandvaleRecoverycollege@wales.nhs.uk

# Siarter y Myfyrwyr

**Pan fyddwch yn astudio yng Ngholeg Adfer a Lles Caerdydd a'r Fro**

## Cyn i chi ddod yn fyfyriwr:

***Gallwch ddisgwyl i ni wneud y canlynol:***

- Rheoli eich ymholiadau yn effeithlon a'ch helpu gyda'r broses gofrestru os bydd angen cymorth arnoch
- Cyfathrebu mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol bob amser
- Darparu gwybodaeth am ein cyrsiau, gweithdai, prosbectws ac amserlen

***Disgwyliwn i chi wneud y canlynol:***

- Gofyn i ni am esboniad os nad ydych chi'n siŵr am unrhyw beth

## Pan fyddwch chi'n cofrestru yn y Coleg Adfer a Lles:

***Gallwch ddisgwyl i ni wneud y canlynol:***

- Gofyn yn ystod y broses gofrestru a oes unrhyw faterion a allai ei gwneud yn anodd i chi fynychu'r cwrs. Byddwn yn gwneud addasiadau rhesymol i gefnogi eich iechyd meddwl a chorfforol a'ch gallu i ddysgu, ar yr amod eich bod yn rhoi gwybod i ni ar yr adeg cofrestru
- Anfon nodyn atgoffa atoch am eich cwrs sydd ar ddod

***Disgwyliwn i chi wneud y canlynol:***

- Cwblhau ein ffurflen gofrestru a darparu'r wybodaeth berthnasol megis eich manylion cyswllt ac enw cyswllt mewn argyfwng
- Cytuno i'r siarter myfyrwyr hon a'r cod ymddygiad
- Dweud wrthym am unrhyw anawsterau iechyd meddwl neu gorfforol a allai wneud eich taith ddysgu yn anodd. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni am eich anghenion er mwyn ein galluogi i'ch helpu

## Yn ystod eich amser yn y Coleg Adfer a Lles:

***Gallwch ddisgwyl i ni wneud y canlynol:***

- Darparu amgylchedd dysgu croesawgar, iachus a diogel a gweithio gyda chi i wneud y broses ddysgu yn hwylus ac yn hygyrch
- Darparu cyrsiau a gweithdai o safon uchel sy'n hyrwyddo adferiad a chynhwysiant cymdeithasol, ac yn cynnig gobaith, rheolaeth a chyfle i chi
- Parchu eich credoau personol, dewisiadau bywyd, ffydd, arferion diwylliannol a thraddodiadol, gan sicrhau amgylchedd sy'n rhydd o stigma a gwahaniaethu
- Rhoi amser a chyfle i chi o fewn, a thu allan i'r ystafell ddosbarth, i roi adborth am y Coleg Adfer a Lles, ei wasanaethau a'i staff, heb ofni'r canlyniadau
- Mynd i'r afael ag unrhyw gwynion a phryderon yn gyfrinachol ac yn broffesiynol

***Disgwyliwn i chi wneud y canlynol:***

- Glynu wrth Siarter Myfyrwyr a Chod Ymddygiad y Coleg Adfer a Lles
- Holi staff y coleg os nad ydych yn siŵr am unrhyw beth
- Mynychu cyrsiau ar amser, neu, os ydych chi'n rhedeg yn hwyr, rhoi gwybod i swyddfa'r coleg
- **Cysylltu â swyddfa'r coleg os na allwch fynychu cwrs neu weithdy mwyach, fel y gallwn gynnig eich lle i fyfyriwr arall**
- Rhoi gwybod i ni am unrhyw anawsterau neu heriau a fyddai'n ei gwneud yn anodd mynychu
- Sicrhau eich bod yn cofrestru. Er bod llawer o gyrsiau'n cael eu darparu ar-lein, mae'n bwysig bod yr holl fyfyrwyr sy'n mynychu yn cofrestru ar wahân. Nid ydym yn caniatáu i grwpiau o fyfyrwyr fynychu gyda'i gilydd ar un ddyfais, er mwyn osgoi amharu ar brofiad dysgu myfyrwyr eraill
- Parchu hawliau holl fyfyrwyr a staff y coleg



# Cod Ymddygiad ar gyfer pawb

**Rydym am sicrhau bod pob un o fyfyrwyr y Coleg yn cael profiad cadarnhaol a chyfoethog ar y cyrsiau maent yn cymryd rhan ynddynt**

**Nid oes yn rhaid i fyfyrwyr ddatgelu unrhyw beth am eu bywyd personol neu broffesiynol, eu hanes na'u hiechyd meddwl/corfforol oni bai eu bod yn dymuno gwneud hynny. Os bydd unrhyw un yn rhannu unrhyw beth, gofynnwn i chi drin yr hyn a gaiff ei drafod yn gwbl gyfrinachol.**

**Gofynnwn hefyd i bawb sy'n mynychu'r Coleg wneud y canlynol:**

- Bod yn brydlon. Ni fydd unrhyw fyfyrwyr yn cael eu derbyn i gyrsiau ar-lein yn hwyrach na 10 munud ar ôl i'r cwrs ddechrau
- Ymddwyn mewn ffordd gyfrifol sy'n meithrin parch a dealltwriaeth rhwng holl aelodau'r Coleg
- Parchu hawliau, dewisiadau bywyd, credoau a barn eraill, heb gyffredinoli o gwbl na stereoteipio
- Peidio ag ymddwyn mewn ffordd a allai gael ei hystyried yn fygythiol neu'n aflonyddol, neu sy'n debygol o arwain at niwed corfforol neu emosiynol i unrhyw fyfyrwyr neu staff
- Peidio â defnyddio alcohol, meddyginiaeth heb ei rhagnodi neu sylweddau anghyfreithlon
- Peidio ag ymddwyn mewn ffordd sy'n atal neu'n amharu ar ddysgu neu weithgareddau eraill
- Peidio ag ymddwyn yn dreisgar, anhrefnus neu'n dramgwyddus na defnyddio iaith felly
- Peidio â recordio gweithdai neu gyrsiau dros y ffôn neu drwy ddull arall

Mae bob un ohonom, myfyrwyr a staff, yn gyfrifol am sicrhau bod y cod hwn yn cael ei barchu a'i arsylwi. Holwch aelod o staff y Coleg os oes gennych unrhyw bryderon.

Os teimlwn eich bod wedi torri'r Cod Ymddygiad hwn, byddwn yn trafod hyn gyda chi ac yn ceisio dod o hyd i ffordd ymlaen.



Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale

# Coleg Adfer a Lles

# Recovery & Wellbeing College

Gobiath • Rheolaeth • Cyfle
Hope • Control • Opportunity

Cardiffandvale.Recoverycollege@wales.nhs.uk

02921 832619

https://bipcaf/gig/cymru/coleg-adfer/

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

AUTUMN_PROSPECTUS_WEL_PART1_2023_V1.0